

FFUG ENW – 'Y FARI LWYD

ADRAN B- BLWYDDYN 9 A 10

TESTUN-STORI YSBRYD AR GYFER Y GAEAF

Yr 22ain o Fedi

Eisteddais ar y sofffa. Â 'mhen bron yn ffrwydro, yn gorlifo â meddyliaidau, cymerais anadl ddofn.

"Wel...lle dwi'n dechre'?"

Dwi'n ei gofio fel ddoe. Diwrnod llwyd, trist, fel petai'r nefoedd eu hunain yn wylo, a'r ddaear frwnt yn llaith, fel petai'r byd ei hun yn chwysu.

Roedd hi fel rheol yn danfon tecst bob dydd. PING! PING! PING! – neges arall, eto fyth...

"Ti'n oce???"

"Sut wyt ti???"

"Ti am ddod draw???"

Byddwn i'n clicio '*mark as read*' bob tro.

Â'r euogrwydd yn cyrydu dros fy nghroen, byddwn i'n ochneidio, a meddwl "*Dwi'n rhy brysur i siarad nŵan.*", neu "*Os ateba i, wnaiff hi ddim gadael i mi fynd.*", neu hyd yn oed "*Mae gen i gymaint ymlaen gyda'r ysgol, a, wel ti'n gwybod...jesd popeth...*", ond ar ôl ychydig, byddai'r esgusodion yn pylu, a byddai curo di-ffael y meddyliau ymhell yng nghefn fy meddwl.

Wnaethon nhw stopio r'wsnos 'na. Lle byddai galwad ar ôl galwad ar ôl galwad - doedd dim byd. Dim tecst, dim *emoji*, dim hyd yn oed '*Last seen at 17:15*'.

Ar ôl bore o boeni, aeth Dad draw i'w thŷ hi. Roedd o ar bigau'r drain am nad oedd o 'di clywed ganddi ers 'chydig. Anghofiai fyth y golwg ar ei wyneb pan ddoth o nôl. Roedd o fel petai wedi gweld ysbryd.

"Ma' hi 'di mynd, E." Roedd dagrau'n diferu i lawr ei fochau. Roedd ei wyneb yn welw, ac roedd o'n crynu - nid am ei fod yn oer... ond, roedd o'n crynu.

"Na....na...."

Aeth ias oer i lawr fy nghefn. Teimlais fy nghroen yn poethi a chwysu. Teimlais y dagrau'n llifo i lawr fy ngwddw a'n glanio ar fy nghrys-T glas. Teimlais fy nghalon yn curo'n drwm o dan f'asennau, a 'nghroen fel petai'n cael ei grafu gan fwystfil, â chrafangau miniog yn noethi'm mhoen. Trodd popeth yn un llanast lliwgar, ac wrth i'm golwg bylu, aeth popeth yn ddu bitsh....

Y noson honno, daeth f'wncwl a'm cyfnither lawr o'r Gogledd i siarad gyda'r bobl ambiwlans. Wedi'r hwyr, eisteddon ni yn ein 'stafell fyw yn meddwl, crio a sipio te oedd eisoes 'di mynd yn oer.

Ni chlywais i ei geirie' hi am 'chydig o funudau. Teimlwn fel petawn i'n fyddar....neu fod fy nghlustiau'n gwrthod derbyn digwyddiadau'r diwrnod.

"Ti'n oce E?" gofynnodd fy nghyfnither, â llais pitw, gwan. Syllodd arnaf gan astudio pob modfedd o'm gwyneb, a hwnnw 'di chwyddo'n goch a phoenus.

Mwmlais f'ateb. Doedd gen i fawr o nerth i brosesu ei chwestiwn.

Dwi'm yn cofio llawer ar ôl hynny.

Dyddie' o orwedd yn fy ngwely yn wylo, sgrechian heb agor fy ngheg, a chwydu'r teimladau na fynegais. Dwi'm yn meddwl i mi fwyta am dridiau.

Efallai digwyddodd o achos do'n i heb gysgu'n ddechre' ers ddyddie', neu efallai achos bod 'na gymaint 'di digwydd yn y dyddie' diwethaf, ac ro'n i'n mynd yn wallgo', ond anghofiai fyth y foment honno.

Pan mae pobl yn disgrifio'r munudau ola' o'u bywydau, maen nhw'n sôn am weld cyfres o'u hatgofion yn fflachio o'u blaen. Dyna ddigwyddodd i mi. Amrantiad o adlewyrchu ar ei bywyd; adlewyrchu ar f'amser gyda hi.

Caeais fy llygaid. Ro'n i'n bump eto.

Gwelais Nain yn 'iste yn ei chadair. Clywais gerddoriaeth *Strictly Come Dancing* yn bloeddio yn y cefndir. Aroglais yr hen arogl 'na - yr hen arogl melys sydd gan hen ledi's, y cymysgedd o bersawr a fferins a sebon. Teimlais wres y tân crasboeth, a gwyliais y fflamau'n dawnsio o du ôl y gwydr. Teimlais y melfed ar fy nghroen, ac edrychais lawr ar y dilledyn. Roeddwn i'n gwisgo fy hoff ffrog binc. Wedyn, fel petawn yn bry ar y wal, gwelais fy hun yn dawnsio i'r gerddoriaeth o flaen Anti El a Nain, a hwythau'n gweu blancedi wrth wenu.

FFLACH. Atgof arall.

Teimlais belydrau'r haul euraidd ar fy nghroen. Aroglais betalau blodau ei gardd amryliw. Clywais geir yn pasio yn y cefndir. Gwelais bili-palod gwyn yn hedfan o duwch yr ardd, a'u hadenydd bregus yn ymysgwyd yn ysgafn fel plu. Clywais lais Anti El.

"E! Mae cinio'n barod!"

"Dwi'n dod!" meddais, cyn gadael yr ardd a rhedeg i mewn i'r tŷ yn fy welis glas smotiog.

FFLACH. Atgof arall.

Blasais y sudd sur, ac edrychais i lawr ar fy mysedd coch; edrychan yn amrwd. Teimlais yr awel yn chwarae â'm gwallt, ac aroglais y gwyddfid melys. Clywais wenynen yn suo wrth hofran o un blodyn i'r llall, bron yn boddi yn y môr o baill. Ac mi glywais fy hun eto.

"Anti EIIII.....'dan ni am neud jam hefo'r mwyr duan 'ma?"

"Bydd 'na ddim ar ôl os gari' 'di mlaen yn eu llowcio lodes!"

Chwarddais i, gan sleifio un neu ddau arall o'r bowlen blastig i'm ceg.

FFLACH.

FFLACH.

FFLACH. Atgof ar ôl atgof ar ôl atgof. Un ar ôl y llall. Tan i bopeth fynd yn ddu eto.

Cysgais am ddyddie', bron.

Llifodd yr wythnose' nesa o un i'r llall, fel peli ar fwrdd snwcer. Clic, clac, clic....

Dwi'n cofio chwarae snwcer gyda hi...

Llifo wnaethon nhw tan i bopeth oedi ar unwaith. Tan i'r ddaear ei hun atal troi. Dim ond awel yr hydref oedd i'w glywed, yn rhuglo trwy ddail y dderwen ddu.

Daeth yr angladd. Y 23ain o Hydref 2024. Tridiau ar ôl fy mhen-blwydd.

Dwi'n cofio iddi wneud cacen pen-blwydd i mi ...

Mae'n debyg fod pawb yn gwybod pa brofiad yw angladd. Y poen. Y dagrau sy'n llifo'n ddiddiwedd pan does dim dagrau ar ôl yn dy gorff. Y cofleidiadau cysurus. Y gwenau gwag. Y difaru distaw.

Dwi'n cofio dal ei llaw yn angladd Nain...

A dwi'n meddwl mai dyna'r eildro i mi ei g'warfod o. Wyneb i wyneb. Hefo'r bwystfil 'na.

Yr hen deimlad cyfarwydd o ewinedd yn dilyn fy asgwrn cefn, yn rhwygo fy nghroen a'n rhwbio halen i'r creithiau.

"Pam na alwaist ti?" mynnodd o.

Yr hen deimlad o gael fy nghrogi, fel petai'r geiriau'n cael eu gwasgu o'm gwddw, a'm hanadl yn atal yn fwyfwy.

"Pam na ymdrechaist di?" gwawdiodd o.

Yr hen deimlad o dân yn llosgi fy nghroen, a'r fflachio fflamiog yn atgyfodi'r atgofion – atgofion gafodd eu claddu ym mynwent Allt Tandderwen.

Wedi i'r dail ddisgyn o'r coed, ac ar ôl i'r blagur dyfu eto, aeth bywyd yn ei flaen. Ond roedd o yna, yn fy mhlagio - yn fy mrifo - yn f'arteithio trwy ddim ond ddweud y gwir - fyddai'r gwactod byth yn llenwi.

A dyddie 'ma, dydi o ddim yno bellach. Wel, ddim gymaint, hynny yw. Mae o'n sleifio y tu ôl i mi weithiau, a theimlaf ei anadl poeth ar fy ngwâr.

Fel pan dwi yn fy nosbarth tecstilau, yn pwytho ryw edau trwy ffabrig lliwgar. Mae o yna, yn atseinio ei geiriau hi'n syth i'm clust.

"Am ffrog hardd. Ti fel tywysoges..."

Neu weithiau, pan dwi'n agor y ffrij, a gweld y potyn jam. Mae o yna, yn fy ngwawdio.

"Wna i roi'r siwgr i mewn achos mae'n boeth, iawn? Gei di neud y lêbls i mi. Tyrd..."

Hyd yn oed ar adegau pan mae popeth yn eitha' *normal*, fel pan dwi'n mynd â'r ci am dro, a phasio'r rhesi o gennin Pedr ar ymyl y ffordd. Mae o yna, yn swatio fel ll'goden.

"Mi blannais i a Nain rhain ambell flwyddyn yn ôl. Wyt ti'n hoffi'r blodau E?..."

Ar un o nosweithiau ola' o haf, rhywbryd ar ddechrau mis Medi, ar ôl i'r awyr bylu o oren a phinc i lwyd a du, daeth y bwystfil yn ôl.

Dechreuodd ymweld â mi yn fwy aml, unwaith i'r dyddie' ddechre' tynnu i mewn. Byddai'n danfon ias oer i lawr fy nghefn, neu'n sibrwd i mewn i 'nghlust yn fwy aml nag arfer. Mi wnaeth o'n enwedig ar y diwrnod hwnnw. Y diwrnod arswydus hwnnw...

Yr 22ain o Fedi, 2025.

Caeodd hi ei llyfr nodiadau wrth ochneidio. Tynnodd ei sbectol i ffwrdd a'u rhoi ar y ddesg.

"Am yr awr ola', ti 'di bod yn cyfeirio at 'fwystfil'. Alli di ehangu ar hynny plîs?"

Oedais am eiliad. "Sut? Dwi wedi'w ddisgrifio..."

"Wyt, wyt....ond dwi'n credu mai trosiad o ryw fath yw'r bwystfil 'ma. Math o ddisgrifio teimlad yw e, ynde?"

Edrychais i lawr. Teimlais y dagrau'n diferu i lawr fy moch.

Syllodd arna i â gwen, cyn cynnig bocs o hancesi papur i mi.

"Mae'n debyg fod yr adeg 'ma o'r flwyddyn bob tro yn un anodd i ch'di, felly diolch am rannu dy deimladau. Yn anffodus, mae ein sesiwn wedi dod i ben am heddiw, ond hoffwn drafod mwy am dy alaru tro nesa'....."

Atseiniodd y gair trwy'm enaid.

Diflannodd y crafangau. Diflannodd y cyrne'. Diflannodd y croen cennog. Diflannodd y pigau miniog. Diflannodd yr anadl poeth. Diflannodd y bysedd bachog. Diflannodd y llygaid coch. Diflannodd y dannedd gwaedlyd.

Nid bwystfil oedd o, wedi'r cwbl - ond galaru. Galaru ei hysbryd hi.

Galaru yw bwystfil y gaeaf...

....a fi oedd bwystfil fy hun.